The high level wellbeing goals set out in the vision for Wales are being lived 'for real' at a local level by Community Woodland Groups across Wales

The classic phrase, summed up by community woodland groups across Wales, is 'think globally, act locally' - and groups are acting locally in many ways to reduce their carbon footprint and global impact.

Providing small scale employment and training opportunities, so that local people can work and develop their skills

Well managed local woodland also gives small scale economic opportunities.



Community woodlands draw on the heritage of place, and local history, allowing a connection to that history and how it makes a place unique. The welsh language is a part of that - often describing key features and giving understanding as to why places have the names that they do.

Bringing unmanaged woodland into a managed condition with greater biodiversity and thriving local environments helps woodlands become more resilient, and become places that people can use to develop and improve their own resilience and well-being.

People coming together to work in woodlands develop a level of cohesion and common interest that actively encourages and nurtures involvement. Community cohesion can become a reality around a common purpose using a landscape area valued by many.

Providing opportunities for volunteer activity for a wide range of people provides healthy exercise, and a greater awareness of our relationship to the natural world. It has a beneficial impact on mental as well as physical health, allowing time and space to de-stress and re-discover important connections.

Volunteer working in a community woodland is a great leveller, with everyone able to make contributions irrespective of age, experience or status. There are few environments that are better suited to equality, as the focus is on common interests rather than competition, on collective endeavour rather than personal aggrandisement.

Llais y Goedwig
The voice of community woodlands in Wales

Ariennir gan
Lywodraeth Cymru
Funded by
Welsh Government

Mae'r nodau llesiant lefel uchel a osodwyd yn y weledigaeth ar gyfer Cymru yn cael eu gwireddu 'go iawn' ar lefel leol gan Grwpiau Coetiroedd Cymunedol ym mhob cwr o Gymru.

Yr ymadrodd a ddefnyddir gan grwpiau coetiroedd cymunedol ledled Cymru yw "meddwl yn fyd-eang, gweithredu'n lleol", ac mae grwpiau'n gweithredu'n lleol mewn sawl ffordd i leihau eu hôl troed carbon a'u heffaith niweidiol ar y byd.

Mae coetiroedd lleol sy'n cael eu rheoli'n dda'n gallu darparu cyfleoedd am swyddi a hyfforddiant ar raddfa fach, er mwyn i bobl leol allu gweithio a datblygu eu sgiliau. Maent hefyd yn cynnig cyfleoedd economaidd graddfa fach.



Mae coetiroedd cymunedol yn gwneud yn fawr o dreftadaeth lle, a hanes lleol, gan ganiatáu cysylltiad â'r hanes hwnnw a'r ffordd y mae'n gwneud lle yn unigryw. Mae'r iaith Gymraeg yn rhan hynny - yn aml yn disgrifio nodweddion allweddol ac yn rhoi dealltwriaeth inni o'r rhesymau pam y mae lleoedd wedi cael yr enwau sydd ganddynt.

Mae cael rheolaeth dros goetiroedd nad oeddent yn cael eu rheoli, a sicrhau gwell bioamrywiaeth ac amgylcheddau lleol llewyrchus, yn helpu coetiroedd i ddod yn fwy cydnerth ac yn lleoedd y gall pobl eu defnyddio i ddatblygu a gwella eu cydnerthedd a'u llesiant eu hunain.

Mae dod ynghyd i weithio mewn coetir yn datblygu lefel o gydlyniant a budd cyffredin sy'n annog ac yn meithrin cyfranogiad. Gellir gwireddu cydlyniant cymunedol drwy gael diben cyffredin yn defnyddio tirwedd y mae llawer o bobl yn ei gwerthfawrogi.

Mae gweithgareddau gwirfoddoli ar gyfer amrywiaeth eang o bobl yn cynnig cyfleoedd i gael ymarfer corff a gwell ymwybyddiaeth o'n perthynas â'r byd naturiol. Mae hynny'n cael effaith fanteisiol ar iechyd meddwl yn ogystal ag iechyd corfforol, drwy sicrhau amser a lle i gael gwared ar straen ac ailddarganfod cysylltiadau pwysig.

Mae gwaith gwirfoddol mewn coetir cymunedol yn ffordd dda o ddod â phawb i'r un lefel. Gall pawb gyfrannu, beth bynnag fo'u hoed, profiad neu statws. Nid oes llawer o amgylcheddau sy'n cynnig gwell lleoliad ar gyfer cydraddoldeb, gan fod y ffocws ar fudd cyffredin yn hytrach na chystadleuaeth, ar gydymdrechu yn hytrach na hunanfawrhad.

Llais y Goedwig
Llais coedlannau cymunedol yng Nghymru

Ariennir gan **Lywodraeth Cymru**
Funded by **Welsh Government**